**CABINET**
**3 RHAGFYR 2020**

Cofnodion cyfarfod Cabinet Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ar-lein trwy Webex ar ddydd Iau, 3 Rhagfyr 2020.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Roberts (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Glyn Banks, Chris Bithell, Derek Butler, Dave Hughes, Christine Jones, Billy Mullin a Carolyn Thomas.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant), Rheolwr Gweithrediadau Gwasanaethau Cyfleusterau, Arlwyo a Glanhau NEWydd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Arweinydd Tîm – Gwasanaethau Democrataidd.

**AELODAU ERAILL YN BRESENNOL:**
Y Cynghorydd: Marion Bateman.

**51. DATGAN CYSYLLTIAD**

Bu i'r Cynghorwyr Banks, Butler, Jones a Mullin ddatgan cysylltiad personol gydag eitem rhif 3 - Rhaglen Foderneiddio NEWydd gan eu bod yn llywodraethwyr ysgol.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig dan baragraff 15 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**52. RHAGLEN FODERNEIDDIO NEWYDD**

Cyflwynodd Cynghorydd Mullin yr adroddiad a oedd yn nodi manylion y cynllun pontio gweithredol arfaethedig ar gyfer Arlwyo a Glanhau NEWydd Cyf ac amlinellodd gamau'r gweithrediad a oedd eu hangen i gyflawni'r targedau ar gyfer Rhaglen Foderneiddio NEWydd.

Diolchodd y Prif Weithredwr i Gadeirydd y Cyngor, a oedd yn arsylwi'r cyfarfod, am gytuno i'r cyfarfod arbennig gan fod y penderfyniad yn un brys ac er buddioldeb. Eglurodd y rhesymau dros hynny, sef er mwy amddiffyn taliadau gadael.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau, a'u hateb, ar ansawdd y bwyd, darpariaeth prydau dros dro, cynnyrch na ellir eu hailgylchu a'r fwydlen newydd a fyddai ar gael o Ionawr 2021.

Diolchodd yr aelodau i bob swyddog am y gwaith a wnaed i alluogi caniatáu ceisiadau gweithwyr.

**PENDERFYNWYD**:

(a) Cymeradwyo gweithrediad arfaethedig Rhaglen Foderneiddio NEWydd, a'r newidiadau i'r gwasanaeth arlwyo ysgol, fel nodir yn y cynllun pontio gweithredol; a

(b) Cefnogi rhyddhau gweithwyr a oedd wedi gwneud cais am ddiswyddiad gwirfoddol erbyn 31 Medi 2020 i helpu i hwyluso gweithrediad y model gweithredu newydd.

## 53. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 11.00 am a daeth i ben am 11.50 am)

..................................................

**Y Cadeirydd**